



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Cartref Gofal Melbourne House

**Melbourne House
22-24
Heol Caerfyrddin
Llanelli
SA14 6SP**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

16/06/2022

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.

Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ynglŷn â Chartref Gofal Melbourne House

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth cartref gofal Oedolion heb ofal nyrsio
Darparwr cofrestredig	Melbourne House Care Home Limited
Lleoedd cofrestredig	23
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy iaith
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	
A ydyw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

Crynodeb

Mae'r bobl yn hapus iawn ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael, dywedodd person sy'n byw yn y gwasanaeth wrthym, *"Dwi ddim yn gwybod lle y byddwn i hebddyn nhw, maen nhw'n fendigedig"*. Mae'r gweithwyr gofal yn cael eu harwain gan gynlluniau cyfredol. Mae'r staff yn adnabod y bobl yn dda a gwelsom lawer o ryngweithio cynnes a chyfeillgar. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym, *"Mae'r trigolion yn gymeriadau ac yn fywiog, sy'n ei wneud yn hwyl"*.

Mae'r bobl yn mwynhau treulio amser yn cymdeithasu yn y gwahanol ardaloedd cymunol. Mae'r teuluoedd a'r staff yn gweithio gyda'i gilydd i gynorthwyo'r bobl i barhau'n aelodau gweithgar o'u cymuned leol.

Mae'r cynrychiolwyr yn gadarnhaol am y gwasanaeth a dywedodd un wrthym, *"Rydyn ni wedi bod mor ffodus, mae hi'n ddiogel ac yn cael gofal da"*. Mae'r bobl, eu teuluoedd a'r staff yn gwerthfawrogi'r unigolyn cyfrifol a rheolwr y gwasanaeth ac mae ganddynt ffydd a hyder ynddynt.

Llesiant

Mae'r bobl yn siarad yn gadarnhaol am y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn. Mae cynlluniau personol yn canolbwyntio ar anghenion unigolion. Mae'r rheolwr yn cynnwys gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn y gwasanaeth er mwyn helpu'r bobl i gadw mor iach â phosibl. Mae'r bobl yn cael eu parchu fel unigolion, ac mae'r rhyngweithio â'r tîm staff yn gynnes ac yn gyfeillgar. Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg, sy'n golygu eu bod yn gallu cyfathrebu yn y Gymraeg neu'r Saesneg fel y mynnant. Dywedodd cynrychiolydd wrthym, *"Alla i ddim dod o hyd i ddim o'i le ar y staff, y gofal na'r bwyd, mae e (aelod o'r teulu) wedi cael cymaint o groeso, mae'n galonogol iawn ei fod yn cael cymaint o gefnogaeth"*.

Mae trefniadau recriwtio a hyfforddi yn sicrhau bod y bobl yn cael y gofal a chymorth iawn, gan weithwyr gofal dawnus a gwybodus. Mae'r staff yn amddiffyn y bobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac maent yn hollol ymwybodol o'u cyfrifoldebau i leisio pryderon. Mae'r bobl yn gwybod sut i wneud cwyn os oes angen ac mae ganddynt hyder yn yr unigolyn cyfrifol a rheolwr.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac yn gartrefol, mae yna lawer o wahanol ardaloedd cymunol i bobl gymdeithasu ynddynt a gwneud y pethau y maent yn eu mwynhau. Gall yr unigolion roi eitemau personol yn eu hystafelloedd gwely. Pan fydd y tir o gwmpas y cartref wedi'i gwblhau bydd yn fwy hygyrch i bobl wneud pethau sy'n eu helpu i gadw mor iach â phosibl.

Mae prosesau llywodraethu'n canolbwyntio ar ddatblygu'r gwasanaeth drwy ddefnyddio gwybodaeth o archwiliadau mewnol. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymwneud â rhedeg y cartref o ddydd i ddydd, mae'r bobl a'r staff yn siarad ag ef am wella ansawdd y gwasanaeth. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chofnodi yn adroddiadau ymweliad Rheoliad 73 a'r Adolygiad Ansawdd Gofal chwe mis.

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn gwerthfawrogi'r gofal a'r cymorth personol a gânt. Mae rhyngweithiadau yn gyfeillgar a gofalgar, dywedodd person sy'n byw yn y gwasanaeth wrthym, *"Alla i ddim dweud unrhyw beth drwg o gwbl, mae'r staff yn wych ac mor ofalgar. Os oes angen unrhyw beth arnon ni, maen nhw yno ac yn ein helpu ni"*. Mae cynrychiolwyr y bobl yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth a dywedodd un, *"Mae'n ardderchog, does dim o'i le o gwbl, mae'r staff yn ei hadnabod hi ac maen nhw mor ymroddedig i'w gwaith"*. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym, *"Mae'r gofal yn wych, rydyn ni'n dîm a does dim byd yn ormod. Rydyn ni'n gwneud y pethau bach sy'n bwysig ac mae gennyn ni'r amser i wneud pethau gyda phobl"*. Mae'r rheolwr yn asesu ystod o wybodaeth gan y person, ei gynrychiolwyr a gweithwyr proffesiynol allanol i sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu diwallu anghenion y bobl.

Mae gan y gwasanaeth gynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer sut y mae'n darparu gofal a chymorth i unigolion. Mae'r rheolwr a gweithwyr allweddol yn adolygu cynlluniau'n rheolaidd gyda'r bobl fel eu bod yn parhau i fod yn berthnasol. Mae'r rheolwr yn bwriadu ychwanegu mwy o fanylion at gofnodion i ddangos pwy sy'n cymryd rhan yn yr adolygiadau, a byddwn yn eu gwirio yn yr arolygiad nesaf. Mae nodiadau dyddiol yn cofnodi'r gofal a'r cymorth a gyflawnir, a byddent yn well pe byddent yn cynnwys gwybodaeth fanwl o safbwynt yr unigolyn. Mae tystiolaeth ddogfennol dda o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn ymwneud â'r bobl. Dywedodd gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol a oedd yn ymweld wrthym, *"Mae'n gartref gwych, gyda staff a rheolwyr hyfryd. Mae'r bobl rwy'n gweithio gyda nhw bob amser yn gadarnhaol am y lle"*.

Yn ystod y pandemig, arhosodd y bobl mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau trwy ddefnyddio galwadau fideo a ffôn. Mae'r bobl yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau yn y gwasanaeth a'r ardal leol. Mae'r bobl yn dewis ble i dreulio eu hamser, gallant fynd i unrhyw un o'r ardaloedd cymunol neu dreulio amser yn eu hystafelloedd eu hunain. Dywedodd person sy'n byw yn y gwasanaeth wrthym, *"Mae gennym grŵp bach yma o'r un pentref a dwi'n adnabod llawer ohonyn nhw; mae'n grêt"*.

Mae'r staff yn gweithio'n dda fel tîm ac mae digon o weithwyr gofal ar gael i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda iawn o'r unigolion a'u hoffterau; maent yn sicrhau eu bod yn treulio amser gyda'r bobl.

Mae gan y darparwr bolisiau a gweithdrefnau i reoli'r risg o haint. Mae arferion hylendid da drwyddi draw, mae'r staff yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol cywir ac yn dilyn canllawiau diweddaraf lechyd Cyhoeddus Cymru. Dywedodd cynrychiolydd wrthym, *"Cadwdd [rheolwr] a [unigolyn cyfrifol] bawb yn ddiogel yn ystod COVID"*

Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn gyfforddus ac yn gartrefol, ac mae'r unigolyn cyfrifol wedi diweddarau'r rhan fwyaf o'r adeilad gyda lloriau, dodrefn ac addurniadau newydd. Mae ganddynt gynllun clir ar gyfer gwelliannau pellach, gan gynnwys gwell mynediad i'r tiroedd ac addurniadau ffres.

Mae'r rheolwr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cynorthwyo'r bobl yn unol â'u hanghenion a'u dewisiadau. Gall y bobl ddefnyddio'r gwahanol ardaloedd cymunol i gymdeithasu â'i gilydd neu i gael amser tawel ar eu pennau eu hunain. Mae'r bobl yn symud o gwmpas y gwasanaeth fel y mynnant ac yn ymddangos yn gyfforddus ac wedi ymlacio yn y manau cymunol. Mae ystafelloedd unigol yn cynnwys eiddo personol y bobl gyda'u lluniau a'u dodrefn eu hunain. Dywedodd person sy'n byw yn y gwasanaeth wrthym, *"Mae'n gartref gwych"*. Mae aelodau teuluoedd yn canmol yr amgylchedd, a dywedodd un wrthym, *"Mae'r ardaloedd cymunol yn wych, ac mae eu hystafell yn union yr hyn sydd ei angen arnyn nhw, maen nhw [y gwasanaeth] wedi newid y dodrefn o gwmpas i weddu iddyn nhw"*.

Mae materion cynnal a chadw yn cael eu datrys yn brydlon ac mae'r tîm domestig yn ymroddedig i gadw'r adeilad yn lân ac yn ffres. Cwblheir archwiliadau lechyd a Diogelwch rheolaidd o'r eiddo. Mae'r gwasanaeth yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Tân ac mae'r profion ar yr offer diogelwch tân yn gyfredol.

Mae'r staff arlwyo yn cynnwys y bobl wrth gynllunio'r fwydlen ac yn adnabod hoff a chas bethau unigolion yn dda. Mae amseroedd bwyd yn ddigwyddiadau cymdeithasol a dywedodd unigolyn wrthym, *"mae'r bwyd yn wych, a'r cyfan yn fwyd cartref"*. Wrth drafod y prydau dywedodd aelod o'r teulu, *"Maen nhw'n gwneud yr ymdrech i'w hydradu hi a'i bwydo'n dda"*.

Mae mesurau COVID-19 ychwanegol ar waith. Mae gorsafodd glanweithdra ym mhob rhan o'r gwasanaeth a gweithdrefn profi lem ar gyfer pob ymwelydd.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl sy'n ymwneud â'r gwasanaeth yn disgrifio diwylliant teuluol. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymwneud â'r gwaith o redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd, mae'n hawdd mynd ato ac y mae'n adnabod y bobl a'r staff yn dda. Dywedodd cynrychiolwyr wrthym, "*Mae [unigolyn cyfrifol] yn dda iawn ac mae'n deall y preswylwyr yn dda*", ac "*mae [unigolyn cyfrifol] a minnau bob amser yn cael sgwrs pan fyddaf yn ymweld*". Mae'r gweithwyr gofal yn gwerthfawrogi'r cymorth a dywedodd un wrthym, "*Mae [unigolyn cyfrifol] yn hawdd i siarad â hi, galla i wneud awgrymiadau am unrhyw beth, a bydd hi'n gwrando ac yn rhoi cynnig arni*". Mae trefniadau ar waith ar gyfer monitro a gwella'r gwasanaeth. Mae adroddiadau ymweliad chwarterol yr unigolyn cyfrifol a'r Adolygiad Ansawdd Gofal bob chwe mis yn defnyddio gwybodaeth o archwiliadau mewnol ac allanol, ac yn rhestru camau gweithredu i wella'r gwasanaeth.

Mae'r staff yn gadarnhaol am yr arweinyddiaeth yn y gwasanaeth, dywedodd gweithwyr gofal wrthym, "*Mae'r rheolwr yn wych, bob amser yno i roi cymorth, mae ganddi bolisi drws agored gwirioneddol*", a "*chefnogaeth dda iawn, waeth beth*". Mae'r rheolwr yn ymarferol ac yn rhannu amser rhwng gweithio'n uniongyrchol gyda'r bobl a dyletswyddau gweinyddol. Mae'r bobl yn siarad yn agored â'r rheolwyr ac wedi meithrin perthynas gadarnhaol â nhw. Mae'r cynrychiolwyr yn gwerthfawrogi cefnogaeth y rheolwyr ac yn gwybod sut i fynegi pryderon os oes angen, dywedodd un wrthym, "*Galla i siarad â [rheolwr] heb drafferth ac mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am faterion iechyd neu unrhyw newidiadau, ac fe wnaeth anfon lluniau atom yn ystod COVID*".

Mae polisiau a gweithdrefnau yn gyfredol, ac mae gan y staff ddealltwriaeth ddigonol ohonynt. Mae'r staff yn cael cyfarfodydd goruchwylio rheolaidd ac arfarniadau blynyddol. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym, "*Ces i oruchwyliaeth yn ddiweddar; mae'n sgwrs gyfeillgar a galla i fynegi unrhyw faterion os oes angen ond does gen i ddim*". Mae'r gweithwyr yn dangos dealltwriaeth dda o ddiogelu ac yn dilyn mesurau priodol ar gyfer atal a rheoli heintiau.

Mae gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cynnal cyn i staff newydd ddechrau gweithio. Mae'r rhain yn cynnwys gwirio geirdaon, yr hawl i weithio, a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae sefydlu effeithiol a hyfforddiant parhaus yn sicrhau bod gan y staff y sgiliau a'r wybodaeth gywir i ddiwallu anghenion y bobl. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym, "*Fe wnaeth [y rheolwr] fy nghefnogi trwy gydol fy nghyfnod sefydlu, gwnes i shifftiau cysgodol ac ar-lein, a dwi newydd ddechrau NVQ 2*".

Mae'r rheolwr yn sicrhau bod nifer digonol o staff gofal profiadol yn gweithio ar shifft er mwyn diwallu anghenion y bobl. Mae'r gweithwyr gofal wedi meithrin cydberthnasau da gyda'r bobl ac mae ganddynt ddigon o amser i gynnal iechyd a llesiant y bobl yn effeithiol.

Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
Ni chyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Amherthnasol

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn	Amherthnasol

	yn yr arolygiad hwn	
--	---------------------	--

Dyddiad Cyhoeddi 26/07/2022